Trafnidiaeth Cymru – Rhif y Cwmni 09476013

**Cyfarfod Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

09:00 – 14:00; 19 Gorffennaf 2018

Swyddfa Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno

---

**Cofnodion**

**Yn bresennol:**

Nick Gregg (NED a Chadeirydd) (NG)
James Price (PW) (JP)
Martin Dorchester (NED) (MD)
Alison Noon-Jones (NED) (ANJ)
Nikki Kemmery (NED) (NK)
Kathryn Harries (Ysgrifenyddiaeth) (KH)

Roedd yr arsyllwyr canlynol yn bresennol o Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhan A a Rhan C o'r cyfarfod:

Simon Jones (Arsyllwr LlC) (SJ)
Jenny Lewis (Arsyllwr LlC) (JL)

Roedd y mynychwyr canlynol o Trafnidiaeth Cymru yn bresennol ar gyfer eitemau penodol o'r agenda:

Geoff Ogden (Gw) (GO
Jeff Collins (Gw) (JC)

**Ymddiheuriadau:**

Heather Clash (TrC) (HC)
Sarah Howells (NED) (SH)

**Rhan A: Cyfarfod Llawn o'r Bwrdd**

**Hysbysiad a Chworwm**

1. Gan fod Cworwm yn bresennol agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod hysbysiad o'r cyfarfod wedi'i roi i bob Cyfarwyddwr a oedd yn gymwys i dderbyn hysbysiad o'r fath.

**Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Heather Clash a Sarah Howells. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau pellach.

**Gwrthdaro Buddiannau**

1. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan unrhyw un wrthdaro buddiannau i'w ddatgan. Ni chafwyd yr un datganiad o wrthdaro buddiannau diwygiedig na newydd.

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Adolygodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2018. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r camau gweithredu a oedd yn parhau. Cafwyd diweddariadau gan aelodau'r Bwrdd a chytunwyd y gellid cau nifer o'r camau gweithredu.

**Materion i'w Hystyried**

2. Cyfeiriodd y Cadeirydd at eitemau o'r agenda a gyflwynwyd ar gyfer y cyfarfod presennol:

   **Eitem 2: Iechyd a Diogelwch**

   <u>Eitem 2a: Achlysur Diogelwch</u>

   Eglurodd JP mai diben yr eitem hon ar yr agenda yw sicrhau bod diogelwch yn flaenoriaeth. Trafododd y Bwrdd ddigwyddiad angheuol a oedd wedi digwydd ar bont rheilffordd yn Ne-ddwyrain Cymru. Trafododd y Bwrdd ddiogelwch ar safleoedd gan nodi pwysigrwydd gweithredu a dilyn gweithdrefnau diogelwch. Cododd NG ddigwyddiad diweddar lle'r oedd cwmni wedi derbyn dirwy fawr am beidio â chyflawni goruchwyliaeth iechyd briodol ar eu gweithwyr cyflogedig. Pwysleisiodd NG fod angen canolbwyntio ar iechyd yn ogystal â diogelwch.

Cytunwyd y byddai NK yn gweithio gyda Gareth Morgan er mwyn sicrhau bod proses ar waith i wneud y Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw achosion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Hefyd nodwyd bod angen i fecanweithiau adrodd ar iechyd a diogelwch fod ar waith erbyn 14 Hydref 2018.
*Cam gweithredu:* JC a Gareth Morgan i sicrhau bod mecanweithiau adrodd ar iechyd a diogelwch ar waith erbyn 14 Hydref 2018.

<u>Eitem 2b: Perfformiad a Mesur Iechyd a Diogelwch</u>
Eglurodd JP ddiben yr eitem hon, a gaiff ei defnyddio i adrodd ar y matrics diogelwch o Hydref 2018 ymlaen.

<u>Eitem 2c: Adolygiad o Ddigwyddiadau Mawr/Achosion Bron â Digwydd</u>
Eglurodd NG y defnyddir yr eitem hon i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau mawr neu achosion a fu bron â digwydd pan roddir y gwasanaeth rheilffordd ar waith. Dywedodd NK y dylai TrC nodi problemau cyn iddyn nhw droi yn achosion bron â digwydd. Ychwanegodd MD y dylai TrC gael diwylliant o adrodd ynghylch iechyd a diogelwch. Dywedodd NG y bydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn adolygu agweddau gweithredol iechyd a diogelwch yn fanylach pan roddir y gwasanaeth rheilffordd ar waith a bydd yn darparu diweddariadau ar gyfer y Bwrdd.

**Eitem 3: Diweddariadau Strategol/Datblygu**

<u>Eitem 3a: Adroddiad y Prif Weithredwr(PW)</u>
Rhoddodd JP ddiweddariad ar Adroddiad y PW gan hysbysu'r Bwrdd iddo gwrdd â BBC Radio Wales ar 18 Gorffennaf 2018 i drafod Gwasanaeth Rheilffordd Cymru a'r Gororau a'r Metro. Hefyd, dywedodd JP y byddai'r Partner Gweithredol a Datblygu yn cael ei gyfeirio at dîm Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru. Cafwyd diweddariad gan JP ar nifer o

newidiadau ymhlith y staff. Dywedodd NG y bydd y Pwyllgor Pobl yn adolygu materion AD yn fanylach ac yn darparu diweddariadau yn gyson i'r Bwrdd.

Trafododd y Bwrdd drefniadau pensiwn y cwmni a'r opsiwn posibl i TrC ddod yn gorff derbyniedig o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Dywedodd JL y cafwyd cadarnhad o Swyddfa'r Cabinet y gall TrC ddod yn gorff derbyniedig o'r PCSPS. Cadarnhaodd JL mai dyddiad arfaethedig trosglwyddo'r swyddogaeth reilffordd o Lywodraeth Cymru i TrC yw 29 Hydref 2018. Cytunwyd bod angen mwy o wybodaeth am risgiau a goblygiadau TrC yn dod yn gorff derbyniedig o'r PCSPS er mwyn galluogi'r Bwrdd i ddod i benderfyniad ar y mater hwn.
*Cam Gweithredu:* HC i arwain y gwaith o ddatblygu papur i'r Bwrdd ar y risgiau a'r goblygiadau o gael TrC yn dod yn gorff derbyniedig o'r PCSPS.

Cafwyd diweddariad gan JP ar wasanaeth rheilffordd Cymru a'r Gororau. Trafododd y Bwrdd y ddarpariaeth o gerbydau, yn cynnwys yr effaith bosibl pe na bai'r 769 o gerbydau ar gael ar y dyddiad disgwyliedig.

Cafwyd diweddariad gan JP ar gyllid. Nododd JL amheuon ynghylch y rhagolygon presennol yn erbyn y gyllideb ar gyfer 2018/19. Nodwyd bod HC wrthi'n adolygu'r rhagolygon. Dywedodd NG y bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r materion ariannol yn fanylach ac yn darparu diweddariadau cyson i'r Bwrdd. Cytunwyd y byddai'r rhagolygon diwygiedig yn cael eu trafod gan y Bwrdd yn y cyfarfod nesaf ar 20 Medi 2018.
*Cam Gweithredu:* HC i adolygu'r rhagolygon a darparu diweddariad i'r Bwrdd ar 20 Medi 2018.

Gofynnodd NG am ddiweddariad ar ddarparu Llythyr Cylch Gorchwyl diwygiedig i TrC. Dywedodd JL y byddai rhagolygon cywir yn ofynnol i alluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu Llythyr Cylch Gorchwyl diwygiedig i TrC.

Eitem 3b: Cyllid

Trafodwyd yr eitem hon yn eitem 3a.

Eitem 3c: Ymlyniad /Perfformiad Llywodraethu

Cadarnhaodd JP fod yr archwiliadau gofynnol wedi'u cwblhau. Trafododd y Bwrdd yr adnoddau oedd ar gael yn Trafnidiaeth Cymru i reoli'r broses archwilio.

Eitem 3d: Strategaeth a Systemau TGCh

Cafwyd diweddariad gan JP ar ddatblygiad strategaeth a systemau TGCh y cwmni. Trafododd y Bwrdd faterion perchnogaeth a'r gwaith o drin amrywiol ddata, a'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Nodwyd y byddai'n rhaid sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data mewn perthynas â data cwsmeriaid. Trafodwyd opsiynau gwahanol systemau ar gyfer rheoli'r data hyn. Mae'r Bwrdd yn nodi bod Microsoft Dynamics yn cael ei ystyried fel opsiwn. Cytunwyd y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd mewn perthynas â'r opsiynau system posibl.

*Cam Gweithredu:* GO i sicrhau bod diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd ar opsiynau'r systemau TG, yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y risgiau a'r goblygiadau o fabwysiadu Microsoft Dynamics.

Eitem 3e: Materion Strategol ar gyfer Cyfarfodydd Bwrdd yn y Dyfodol

Gofynnodd NG i aelodau'r Bwrdd am unrhyw faterion strategol pellach y dylid eu cynnwys ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol. Nid ychwanegwyd unrhyw faterion pellach ar yr adeg hon.

Eitem 3f: Llythyr Cylch Gwaith / Cynllun Busnes

Ni chafwyd trafodaeth bellach mewn perthynas â'r Llythyr Cylch Gwaith a'r Cynllun Busnes.

Eitem 3g: Erthyglau Cymdeithasu / Cytundeb Fframwaith

Trafododd y Bwrdd y cynnydd a wnaed ar adolygiad yr Erthyglau Cymdeithasu a'r Cytundeb (Fframwaith) Rheoli. Gofynnodd NG a fyddai adolygiad o'r Cytundeb (Fframwaith) Rheoli yn cael effaith ar y gwaith o drosglwyddo swyddogaethau arfaethedig o Lywodraeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru. Cadarnhaodd JL na fyddai adolygiad y Cytundeb (Fframwaith) Rheoli yn cael effaith ar y gwaith o drosglwyddo swyddogaethau arfaethedig o Lywodraeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru.

Cafwyd diweddariad gan SJ ar y gwaith o drosglwyddo swyddogaethau arfaethedig o Lywodraeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru. Gofynnodd NG am ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Bwrdd am y trosglwyddiadau arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â throsglwyddiad arfaethedig y swyddogaeth rheilffordd ar 29 Hydref 2018.

*Cam Gweithredu:* KH i ychwanegu'r trosglwyddiad swyddogaethau arfaethedig o Lywodraeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru at agenda'r cyfarfod ar 20 Medi 2018.

Dywedodd NG y bydd Trafnidiaeth Cymru yn penodi Cyfarwyddwr AD i arwain ar faterion yn ymwneud â phobl, yn cynnwys unrhyw drosglwyddiadau i mewn i'r cwmni.

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall**

Eitem 4a: Sefydlu Pwyllgorau

Trafodwyd yr eitem hon yn ystod eitemau eraill o'r agenda.

Hysbysodd JL y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn penodiad NG fel Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Trafnidiaeth Cymru tan Ionawr 2019, tan y bydd y broses recriwtio i benodi Cadeirydd Bwrdd Trafnidiaeth Cymru wedi'i chwblhau.

Gadawodd SJ a JL y cyfarfod.

## Rhan B: Adran Gyfrinachol

**Eitem 1: Materion AD Cyfrinachol**

Mae'r eitem agenda hon wedi'i chofnodi ar wahân.

**Eitem 2: Perfformiad y Bwrdd a'r Uwch Dîm**

Mae'r eitem agenda hon wedi'i chofnodi ar wahân. Daeth y Cadeirydd â chyfarfod y Bwrdd i ben yn ffurfiol.

## Rhan C: Sesiwn Agored

Ymunodd SJ, JL, GO, a JC â'r cyfarfod. Agorodd y Cadeirydd y Sesiwn Agored gan groesawu'r mynychwyr i'r cyfarfod.

**Eitem 1: Dod yn Weithredol**

Eitem 1a: Gwaith Paratoi Trafnidiaeth Cymru

Cyfeiriodd GO at y papur ar gyfer yr eitem hon o'r agenda gan egluro'r llinell amser i Trafnidiaeth Cymru ddod yn weithredol fel cwmni. Hysbysodd GO y Bwrdd am y Camau Gweithredu sydd ar droed i sicrhau bod gan Trafnidiaeth

Cymru'r adnoddau gofynnol yn eu lle i ddarparu'r hyn sy'n ofynnol. Trafododd y Bwrdd y Camau Gweithredu sy'n hanfodol ar gyfer 14 Hydref 2018, yn cynnwys systemau a phrosesau ariannol, y systemau a'r strategaeth TGCh, a throsglwyddiad arfaethedig y swyddogaeth reilffordd o Lywodraeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru ar 29 Hydref 2018.

Eitem 1b: Gwasanaethau Rheilffordd yn Dod yn Weithredol

Cafwyd diweddariad gan JC ar y gwaith o ddod â'r gwasanaethau rheilffordd yn weithredol. Eglurodd JC y camau gweithredu sydd ar droed i sicrhau bod y contract newydd ar gyfer Gwasanaeth Rheilffordd Cymru a'r Gororau a'r Metro yn cael eu paratoi'n effeithiol. Cyfeiriodd JC at y papur ar gyfer yr eitem hon gan bwysleisio'r prif risgiau i'r Bwrdd. Trafododd y Bwrdd y prif risgiau, yn cynnwys darparu cerbydau. Cytunwyd y byddid yn darparu diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.

*Cam Gweithredu:* AC i roi diweddariad pellach ar y gwaith o ddod â'r gwasanaethau rheilffordd yn weithredol yn y cyfarfod ar 20 Medi 2018.

Eitem 1c: Adnoddau

Cafwyd diweddariad gan KH ar adnoddau ac eglurodd gan gyfeirio at y papur ar gyfer yr eitem hon, y bwriad i wneud tri phenodiad ar lefel uwch. Cytunwyd y byddai cyflogau Trafnidiaeth Cymru yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Pobl. Cymeradwyodd y Bwrdd y penodiadau y cyfeiriwyd atynt yn y papur ar gyfer yr Eitem hon o'r agenda.

Eitem 1d: Cyfathrebu a Gwasanaethau Cwsmeriaid

Trafodir yr eitem hon yn y cyfarfod nesaf.

Eitem 1e: Cynnydd yn erbyn Cerrig Milltir ac Eitem 1f: Risgiau Allweddol a Chamau Lliniaru

Nododd y Bwrdd y papurau ar gyfer yr eitemau hyn o'r agenda gan gytuno bod y manylion wedi'u trafod yn eitemau 1a ac 1b.

Eitem 1g: Strategaeth Lleoliad

Cafwyd diweddariad gan JP ar ddatblygiad strategaeth lleoliad y cwmni. Nododd y Bwrdd na fyddai'r swyddfa newydd ym Mhontypridd ar gael tan 2020. Trafododd y Bwrdd yr opsiynau o ddarparu swyddfa dros dro ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn Ne-ddwyrain Cymru. Ar ôl adolygu'r gwahanol opsiynau, rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i'r cwmni brydlesu llawr ychwanegol yn Nhŷ South Gate.

**Eitem 2: Unrhyw Fater Arall**

Eitem 2a: Cynllun Pensiwn

Trafodwyd yr eitem hon yn eitem 3a.

Eitem 2b: Caffael Contractwr Cyfleusterau Rheilffordd Llanwern

Rhoddwyd diweddariad gan JC ar Gaffael Contractwr Cyfleusterau Rheilffordd Llanwern. Adolygodd y Bwrdd y papur a gyflwynwyd ar gyfer yr eitem hon o'r agenda a chymeradwyo:

a) yr argymhelliad i archwilio'r opsiwn ar gyfer y prif gontractwr i fod yn gyfrifol am gynnal y MESL am hyd at 5 mlynedd ar ôl cwblhau; gellir archwilio hyn trwy gaffaeliad y prif gontractwr a bydd yn galluogi Trafnidiaeth Cymru i ystyried yr opsiynau sydd ar gael;

b) dechrau'r broses gaffael hon (gweithgarwch gwerth dros £5 miliwn).

Eitem 2c: Strategaeth Gwasanaethau Ymgynghori Peirianyddol

Cafwyd diweddariad gan GO ar y Strategaeth Gwasanaethau Ymgynghori Peirianyddol (ECS). Adolygodd y Bwrdd y papur a gyflwynwyd ar gyfer yr eitem

hon o'r agenda a chymeradwyo'r strategaeth gaffael arfaethedig i gefnogi dechrau'r broses gaffael.

**Eitem 3: Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 20 Medi 2018. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu a daeth â'r cyfarfod i ben.